**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Carolyn Thomas AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

27 Medi 2024

Annwyl Carolyn,

**Cyf: Llythyr gan y Pwyllgor ynghylch Deiseb P-06-1433**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf. Mewn ymateb i’r cais a wnaed gennych yn eich llythyr, rwy’n ysgrifennu atoch i egluro’r sefyllfa bresennol.

Yng nghyfarfod y Comisiwn ar 15 Gorffennaf, trafododd y Comisiynwyr yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd ar gais y Comisiwn gan un o’i Gynghorwyr Annibynnol. Diben y darn hwn o waith oedd cynorthwyo Comisiwn y Senedd i lunio protocol/polisi darlledu a fyddai’n rhoi eglurder ar y sianeli a fyddai ar gael ar system deledu fewnol y Senedd yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn nodi y dylai’r polisi fod:

- Yn dryloyw: dylid cyhoeddi’r polisi ar y fewnrwyd ochr yn ochr â rhestr o’r sianeli sydd ar gael.
- Â chysylltiad agos â barn y Comisiwn ynghylch yr hyn sydd orau i ddiwallu anghenion proffesiynol yr Aelodau, eu staff a staff y Senedd. Sianeli a gorsafoedd radio sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes sydd fwyaf tebygol o fod yn y categori hwn. Mae’n anodd gweld cyfiawnhad dros gynnig amryw o sianeli adloniant a gorsafoedd radio cerddorol ar rwydwaith mewnol y Senedd.
- Yn wleidyddol ddiduedd: mae’n hanfodol bod Comisiwn y Senedd yn wleidyddol ddiduedd, ac yn cael ei weld yn wleidyddol ddiduedd, ac nad yw pobl yn meddwl bod penderfyniadau ynghylch pa sianeli i’w cynnwys ar y rhwydwaith yn cael eu gwneud ar sail safbwyntiau gwleidyddol Aelodau. Byddai dilyn safon reoleiddio allanol o ran didueddrwydd yn rhoi sicrwydd yn hyn o beth.

- Yn syml: mae rheol syml yn hawdd i'w hesbonio ac yn hawdd i'w dilyn. O gael rheol fwy cymhleth, mae perygl y gallai'r Comisiwn gael ei dynnu i mewn i drafodaethau hirfaith ynghylch pa sianeli teledu i'w cynnwys neu i gael gwared arnynt, ac ni fyddai hynny o fudd i neb.
- Yn gosteffeithiol: dylai Comisiwn y Senedd leihau gwariant cyhoeddus ar gynnwys sianeli ar ei rwydwaith mewnol ac ar weithredu ei bolisi yn hyn o beth.


Cafodd y Comisiynwyr gopi o'r wybodaeth yn yr adroddiad, gan dderbyn y dull polisi a argymhellwyd gan y Cynghorydd Annibynnol.

Y safbwynt polisi a fabwysiadwyd oedd mai prif ddiben y system deledu fewnol yn y Senedd yw darparu ffrydiau darlledu ar gyfer y Siambr a'r Ystafelloedd Pwyllgora. Yn ogystal, mae nifer o sianeli teledu a gorsafoedd radio ar gael hefyd. Y sianeli teledu yw'r rheini y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn diwallu anghenion proffesiynol yr Aelodau, eu staff a staff y Senedd ac y mae'n ofynnol iddynt drwy statud ddarparu darllediadau cynhwysfawr ac awdurdodol o newyddion a materion cyfoes yn y Deyrnas Unedig, ac yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig, ac o bob cwr o'r byd. Yn ogystal, mae nifer o orsafoedd radio sydd, yn bennaf, yn darparu darllediadau newyddion awdurdodol hefyd wedi'u cynnwys ar y rhwydwaith mewnol.

Bydd hyn yn golygu y bydd system driphlyg Comisiwn y Senedd ('triple play system' yn Saesneg) yn cynnwys y sianeli hynny sydd â rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus yn unig, sef: y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 ac S4C. Cytunodd y Comisiynwyr ar un ychwanegiad at y ddarpariaeth hon, sef cynnwys Sky News fel sianel ychwanegol i sicrhau lluosogrwydd o ran rhaglenni newyddion.

Mae ystod eang o sianeli teledu a systemau radio eraill ar gael ar-lein gan ddefnyddio rhwydwaith TG y Senedd.

Yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English